



Gwiriwr Cymhwysra Cyflym

Cyn cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb, cadarnhewch eich bod yn gallu ateb OES i bob un o'r cwestiynau canlynol.

Cymhwysra'r Busnes

- ☐ Mae fy musnes wedi'i leoli ym Mlaenau Gwent.
- ☐ Mae fy musnes yn masnachu'n weithredol.
- ☐ Mae fy musnes yn gweithredu ar sail fasnachol amser llawn.
- ☐ Mae fy musnes yn hyfyw yn ariannol.
- ☐ Gallaf ddangos bod gan fy musnes y gallu i gyflawni'r prosiect arfaethedig.
- ☐ Mae fy musnes yn gweithredu o fewn sector cymwys:
 - Manwerthu
 - Gwasanaethau
 - Lletygarwch
 - Twristiaeth
 - Hamdden
- ☐ Mae fy musnes yn perthyn i un o'r mathau canlynol o sefydliadau cymwys:
 - Masnachwr Unigol
 - Partneriaeth
 - Cwmni Cyfyngedig
 - Cydweithredfa
 - Cwmni Buddiant Cymunedol (CIC)
 - Menter Gymdeithasol
 - Elusen sy'n ymgymryd â gweithgarwch masnachol
 - Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (LLP)

Cymhwysra'r Prosiect

- ☐ Bydd y prosiect yn cefnogi twf busnes, cynhyrchiant, cystadleurwydd, cynaliadwyedd neu welliannau i brofiad cwsmeriaid.
- ☐ Bydd y prosiect yn cyfrannu at weithgarwch economaidd ym Mlaenau Gwent.
- ☐ Bydd y prosiect yn helpu i greu swyddi, diogelu swyddi, gwella cynaliadwyedd y busnes neu gefnogi twf cyflogaeth yn y dyfodol.
- ☐ Mae'r prosiect yn dangos ychwanegedd clir (ni fyddai'r prosiect yn mynd rhagddo yn yr un modd heb gymorth grant).
- ☐ Defnyddir y grant yn bennaf ar gyfer buddsoddiad cyfalaf.

- ☐ Bydd y gwariant arfaethedig yn darparu gwelliant mesuradwy i'r busnes.
- ☐ Nid yw'r gwariant yn syml yn disodli eitem sydd eisoes yn bodoli ar sail tebyg-am-debyg.
- ☐ Nid yw'r prosiect wedi dechrau ac nid oes unrhyw eitemau wedi'u prynu, eu harchebu na'u hymrwymo iddynt.
- ☐ Gellir cwblhau'r prosiect yn llawn, talu amdano a chyflwyno'r hawliad erbyn **31 Ionawr 2027**.

Cymhwysra Ariannol

- ☐ Gallaf ddarparu o leiaf 50% o gyllid cyfatebol tuag at gyfanswm costau'r prosiect.
- ☐ Rwy'n deall bod y grant yn cael ei dalu'n ôl-weithredol.
- ☐ Gallaf ariannu llif arian y prosiect cyn derbyn ad-daliad y grant.
- ☐ Gallaf ddarparu tystiolaeth o'r cyllid cyfatebol.

Tystiolaeth Ategol

- ☐ Gallaf ddarparu tri dyfynbris cymaradwy ar gyfer pob eitem (lle bo ar gael).
- ☐ Gallaf ddarparu cyfrifon busnes.
- ☐ Gallaf ddarparu cyfrifon rheoli (os gofynnir amdanynt).
- ☐ Gallaf ddarparu rhagolwg llif arian am 12 mis.
- ☐ Gallaf ddarparu rhagolwg elw a cholled am 12 mis.
- ☐ Gallaf ddarparu cynllun cyflawni prosiect manwl.
- ☐ Gallaf ddarparu gwybodaeth am gyflogaeth lle bo'n berthnasol.

Datganiad

- ☐ Rwyf wedi darllen Nodiadau Canllaw llawn Grant Twf Manwerthu, Gwasanaethau, Lletygarwch a Thwristiaeth.
- ☐ Rwy'n deall mai cynllun grant cystadleuol yw hwn ac nad yw bodloni'r meini prawf cymhwysra yn gwarantu cyllid.

Canlyniad

Os gwnaethoch ateb OES i bob cwestiwn:

Mae'n debygol eich bod yn gymwys i gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb.

Os gwnaethoch ateb NAC OES i unrhyw gwestiwn:

Adolygwch y nodiadau canllaw cyn bwrw ymlaen, oherwydd efallai na fydd eich cais yn gymwys i gael cymorth.